

**COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES  
A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, WRECSAM AR  
DYDD IAU, 20 MEHEFIN 2019**

**AELODAU**

Y Cynghorydd Nigel Williams, Cadeirydd  
\*Y Cynghorydd Frank Hemmings, Is-Gadeirydd

Y Cynghorydd	*	Dana Davies	Y Cynghorydd	*	John McCusker
"		Carrie Harper	"		Beverley Parry-Jones
"		R Alun Jenkins	"	*	Rondo Roberts
"		Paul Jones	"		Debbie Wallice
"		Tina Mannerling	"		

Mr Brendan McDonald - Cynrychiolydd yr Eglwys  
Mrs Rosalind Williams - Cynrychiolydd yr Eglwys\*

Mrs Alison Fisher - Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr\*

Mr Brent Evans - Cyfetholedig\*

\*Yn absennol

Hefyd yn bresennol – Y Cynghorwyr Andrew Atkinson

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Dana Davies, Frank Hemmings, John McCusker, Rondo Roberts ac Aelodau Cyfetholedig Alison Fisher, Rosalind Williams a Brent Evans.

**2 CADARNHAU COFNODION**

**CYTUNWYD –Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019 fel cofnod cywir.**

Diolchodd Aelodau'r Pwyllgor i'r Cyn Gadeirydd, y Cynghorydd Carrie Harper a'r cyn Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Michael Dixon am eu gwasanaeth yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

**3 AMSEROEDD CYFARFODYDD**

Gofynnodd y Cadeirydd am farn y Pwyllgor ynglŷn ag amser cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes ar gyfer blwyddyn y cyngor 2019/20.

**CYTUNWYD – Bod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes yn dechrau am 2.30pm yn y dyfodol.**

#### 4 **ADRODDIAD CANLYNIADAU DYSGWYR AR GYFER DISGYBLION WRECSAM YNG NGHOLEG CAMBRIA 2017/18**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid adroddiad (COGC/26/19s) i ystyried y safonau addysg ar gyfer disgyblion Wrecsam sy'n mynychu Coleg Cambria ac i ystyried y ganran o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg llawn amser.

Croesawodd y Cadeirydd Llinos Roberts a Clwyd Jones, cynrychiolwyr o Goleg Cambria i'r cyfarfod. Cyflwynodd Llinos Roberts yr adroddiad i'r Pwyllgor yn tynnu sylw'r Aelodau at y wybodaeth ganlynol:

- Adroddiad deilliannau dysgwr ar gyfer Coleg Cambria yn 17/18
- Canlyniad mesurau cyflawniad ôl-16 yn 17/18
- Perfformiad dysgwyr Coleg Cambria sy'n byw yn ardal Wrecsam wedi'i dorri lawr.

Hysbysodd Clwyd Jones y Pwyllgor y byddai'r set gyffredin o fesurau perfformiad newydd, oedd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol yn dod i rym o'r flwyddyn nesaf.

Yn ystod trafodaeth gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

- Y cyfraddau llwyddo galwedigaethol ar lefel mynediad, oedd o dan y cymharydd cenedlaethol.
- Cyfanswm nifer y disgyblion oedd wedi cwblhau yn y cyfnod 2015/16 – 2917/18.

Roedd Aelodau yn croesawu'r adroddiad ac yn canmol y coleg am yr adroddiad cadarnhaol oedd yn dangos bod dysgwyr Wrecsam yn gwneud cynnydd yng Ngholeg Cambria. Hefyd nodwyd bod y coleg wedi derbyn tystysgrif am gynnydd rhagorol gan ALPs yn cadarnhau bod y coleg ymysg y 25% uchaf yn y DU.

**CYTUNWYD – Diolch i Goleg Cambria am gyflwyno adroddiad cadarnhaol iawn yn amlinellu'r Deilliannau Addysgol ar gyfer Dysgwyr Wrecsam yng Ngholeg Cambria.**

#### 5 **CYMORTH IECHYD A LLES I YSGOLION**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Pobl - Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrth-dlodi adroddiad (COEEI/12/19s) i ystyried y prif themâu/tueddiadau a nodwyd drwy'r arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgol o 2017/18 ac i amlygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer lles disgyblion Wrecsam.

Dywedwyd bod 7 ysgol uwchradd yn Wrecsam wedi cymryd rhan yn yr arolwg oedd wedi amlygu sawl maes cadarnhaol i ysgolion ddatblygu ynghyd â nifer o feysydd oedd angen cymryd camau a gwelliant pellach. Roedd ysgolion yn datblygu eu cynllun gweithredu eu hunain ac roedd nifer o gamau wedi eu cynnwys eisoes fel

rhan o gynllun gweithredu'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gofynnwyd i Aelodau nodi'r galw parhaus am gefnogaeth gyda gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r Aelod Arweiniol a'r swyddog a oedd yn bresennol. Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol:

- Pwysigrwydd cyfranogiad yr ysgol yn yr arolwg.
- Gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â pha mor ddibynnol oedd data'r arolwg. Dywedodd y swyddog fod yr ALI yn casglu data gan ystod o wasanaethau ac arolygon eraill i sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio ar y meysydd cywir.
- Rôl llywodraethwyr ysgol yn herio a chefnogi ysgolion yn defnyddio'r data arolwg i ddatblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu.
- Rôl y Pwyllgor yn y dyfodol i edrych ar raglenni gwella iechyd a lles ysgolion i weld sut mae materion fel diffyg cwsg, gordewdra ac yfed diodydd melys yn derbyn sylw.
- Nodwyd fod tîm Lles yr Awdurdod Lleol yn darparu rhaglenni codi ymwybyddiaeth o ran effaith negyddol dyfeisiau symudol a diffyg cwsg ar ddysgu.
- Rôl ganolog rhieni i gefnogi'r agenda iechyd a lles.
- Pryder a fynegwyd am lefel y rhestr aros sy'n codi o'r galw am wasanaethau cwnsela yn yr ysgol.  
Cydnabuwyd bod cefnogaeth wedi'i thargedu'n cael ei darparu i ysgolion cynradd allweddol i ddarparu cefnogaeth i blant yn ifanc.

#### **CYTUNWYD -**

- (i) Bod gohebiaeth yn cael ei chyfeirio i gyrff llywodraethu ysgolion y Maelor a Bryn Alyn i weld pam nad oeddent wedi cymryd rhan yn arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr yn 2017/18.**
- (ii) Bod adroddiad diweddar ar Gefnogaeth Iechyd a Lles i Ysgolion yn canolbwyntio ar gyngor a ddarparwyd i ysgolion i fynd i'r afael â gordewdra a diffyg cwsg a'u cynlluniau gweithredu perthnasol i fynd i'r afael â'r materion hyn.**
- (iii) Bod y pwysau ar y gwasanaeth cwnsela ysgol yn cael ei gydnabod a bod pryder yn cael ei fynegi am hyd rhestrau aros presennol a'r pwysau ar adnoddau.**

Y Cynghorydd Nigel Williams  
Cadeirydd